

Pecyn Ymgeisio – Aelod o Fwrdd Articulture Cymru 2021



EIN HANES

Mae Articulture yn datblygu celfyddydau awyr agored arloesol, o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol yng Nghymru. Rydym yn cydweithio ag ystod eang o ymarferwyr celfyddydau ac eraill i wneud hyn, trwy gomisiynu, gwaith partneriaeth, gwaith ymchwil, digwyddiadau a theithio.

Caiff Articulture ei ysgogi gan y gred y gall celfyddydau awyr agored annog cyfranogiad pobl a phartneriaethau sydd o fudd i bawb, a hynny o bob sector o'r gymdeithas, gan arwain at les gwell i gymunedau Cymru. O theatr stryd a syrcas o'r radd flaenaf, i sioeau golau a sain sydd wedi'u gwerthu allan yn rhyngwladol a gŵyl deithiol fwyaf Ewrop, mae celfyddydau awyr agored ledled Cymru yn cynnig cyfrwng unigryw a phwerus i ennyn diddordeb cymunedau mewn ffyrdd deinamig ac uchel eu heffaith gyda'r lleoedd maen nhw'n byw.

Cefnogir hyn gan waith ymchwil megis Adroddiad 2018 UK Audience Agency "The Outdoor Arts Audience"; - "Mae gan (Gelfyddydau Awyr Agored) allu anhygoel i ailddychmygu gofod, dod â chymunedau ynghyd a chreu profiadau artistig eithriadol" a "rôl sylweddol i'w chwarae mewn bywyd dinesig lleol ac mewn galluogi mwy o ddemocratiaeth ddiwylliannol" - yn enwedig felly pan fônt yn rhad am ddim ac yn y maes cyhoeddus, gan ddenu cynulleidfau fwy amrywiol, sy'n gynrychiolado o'r boblogaeth.

Mae gan Articulture enw da am gyflawni prosiectau o ansawdd uchel, a pherthynas hir a chryf â'r rhai y mae'n gweithio gyda nhw. Pum Cynhyrchydd Creadigol llawrydd yw Articulture, pob un ohonynt yn fedrus ac â phrofiad o gyflwyno celfyddydau awyr agored ar draws ystod eang o fannau, gan gynnwys awdurdodau lleol, gwyliau, y stryd fawr, lleoliadau perfformio, amgueddfeydd, addysg a'r amgylchedd naturiol. Lle bo angen, byddir yn dwyn i mewn aelodau cyswllt arbenigol i helpu gyda chyflawni prosiectau. Rydym hefyd yn aelod gweithgar o rwydweithiau celfyddydau rhyngwladol perthnasol, megis Outdoor Arts UK a Circostrada.

Mae Articulture yn edrych ar y syniad o recriwtio gweithwyr craidd, megis Rheolwr Cyffredinol. Ar hyn o bryd, caiff Articulture ei ariannu'n bennaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru, er bod incwm ychwanegol yn cael ei gynhyrchu trwy brosiectau partneriaeth annibynnol a thrwy hyfforddiant, mentora, rheoli prosiectau a rhaglennu ar sail ymgynghoriaeth. Ymhlith y partneriaid mae digwyddiadau sefydledig, megis yr Eisteddfod Genedlaethol a Gŵyl Afon Dyffryn Gwy, lleoliadau megis Canolfan Mileniwm Cymru, a rheolwyr tir a chyrff statudol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r gwaith ymgynghori cynyddol yn cynnig cwrmpas gwerthfawr ar gyfer ehangu, cynhyrchu incwm a phroffil uwch. Ochr yn ochr â gwaith paratoi Articulture i wneud cais am statws Portffolio Celfyddydau Cenedlaethol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn 2022 (i sicrhau cyllid tymor hir) mae hi'n amser cyffrous i ymuno â'r Bwrdd a chefnogi gweledigaeth a datblygiad anturus Articulture.

Gallwch weld mwy am ein gwaith yn www.articulture-wales.co.uk

A person wearing a traditional Welsh costume, including a tall black hat (tŷgwyn), a dark jacket with a plaid collar, and a long skirt with a colorful geometric pattern (yellow, green, and purple). They are standing in a grassy field with trees in the background.

EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Articulture yw y
bydd pawb yng Nghymru yn
cael mwy o gyfle i brofi
celfyddydau

awyr agored o ansawdd uchel
yn lleol, yn Gymraeg a Saesneg
- p'un ai yn eu marchnad, eu
stryd fawr, eu gwarchodfa
natur, eu coedwig, eu mynydd
neu ar eu traeth, gan ddod â'r
cynnig

sylweddol o iechyd a lles gwell
y gall celfyddydau awyr agored
ei gynnig i bawb.

EIN CENHADAETH

- Tyfu - Meithrin cymuned gynhwysol â chysylltiadau da o gydweithwyr o ystod eang o sectorau celfyddydau ac eraill i hwyluso'r gwaith creu ac arddangos celfyddydau awyr agored ledled Cymru.
- Creu - Rydym yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau ac artistiaid ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa, i ehangu a datblygu eu sgiliau, a'u harfer a'u huchelgais gyda chelfyddydau awyr agored, fel y gallant greu gwaith newydd i gynulleidfaoedd amrywiol yng Nghymru a thu hwnt.
- Arddangos - Rydym yn ymgysylltu â phartneriaid lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddarparu llwyfannau i artistiaid o Gymru rwydweithio a pherfformio fel y gall cymaint o gynulleidfaoedd â phosibl fwynhau eu gwaith ledled Cymru ac yn rhyngwladol ac fel y gallant ennill incwm o'u gwaith creadigol a pherfformiadol.





EIN GWERTHOEDD

1. Ansawdd a chydraddoldeb mewn partneriaethau, cyfleoedd a gwaith a gomisiynwyd.
2. Yn unigryw yng Nghymru ac o Gymru.
3. Cynhwysiant a mynediad i gynulleidfaoedd ac artistiaid amrywiol.
4. Aros yn driw i'r blaned hon a'n cyddynion - sicrhau bod ein gwaith a'i chanlyniadau yn adlewyrchu cymaint yr ydym yn parchu ac yn trysori'r naill a'r llall.
5. Cefnogi a phroffilio arfer gorau.
6. Amlygu effaith ac eirioli dros y sector



Mae Articulture mewn cyfnod cyffrous o dwf. Rydym yn fedrus o ran cadw llyfrau (QuickBooks) a gwaith cyfrifyddu sylfaenol, ond yn chwilio am aelod newydd o'r Bwrdd sydd â'r wybodaeth ariannol i'n helpu i wneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus fel y gallwn integreiddio gwaith cyfrifyddu ariannol yn well i mewn i benderfyniadau strategol.

Rydym yn awyddus i ddod yn fwy hyddysg mewn defnyddio gwybodaeth ariannol i gynllunio gweithrediadau effeithlon a gwella ein heffeithiolrwydd cyffredinol fel sefydliad sy'n tyfu. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni symud i gyfnod newydd o gyllid tymor hir, gyda phortffolio mwy o gontractau a phrosiectau ymgynghori.

Llywodraethir Articulture gan Fwrdd ac mae wedi ymrwymo i arfer llywodraethu da, gan sicrhau:

- Gweithdrefnau bwrdd effeithiol, arweinyddiaeth gref a phwrpas clir;
- Gweledigaeth strategol wedi'i rhesymu a'i hegluro'n glir i'w chyfleu i randdeiliaid;
- Bod yn agored, atebol a thryloyw i randdeiliaid a'r sector ehangach.



Rydym yn chwilio am Aelod newydd o'r Bwrdd o unrhyw le yn y DU sydd ag arbenigedd yn y maes Cyllid Strategol yn ogystal ag â'r meini prawf a ganlyn:

- Brwdfrydedd am genhadaeth, gwerthoedd a gweledigaeth Articulture.
- Gwybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Articulture ac ymrwymiad i sicrhau'r rhain.
- Yn barod i weithio ac yn gallu gwneud hynny fel rhan o'r tîm llywodraethu ac mewn cydweithrediad â'r uwch-dîm arweinyddiaeth.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Yn barod i ymgymryd â gwaith rhwydweithio allanol gyda sefydliadau ac unigolion er mwyn cynorthwyo i gyflawni ein cenhadaeth a'n cynllun strategol.
- Yn barod i weithredu fel llysgennad dros Articulture.
- Yn gallu defnyddio creadigrwydd ac arloesedd wrth newid a thyfu.

YMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Rydym yn sefydliad cynhwysol sy'n cynorthwyo ystod amrywiol o bobl. Hoffem adlewyrchu'r amrywiaeth hon ar ein Bwrdd.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un, waeth beth fo'i oedran, ei brofiad, ei rywioldeb, ei grefydd / gredoau, ei anabledd, ei ethnigrwydd, ei dreftadaeth, ei rywedd na'i gefndir economaidd-gymdeithasol.

Mae Articulture wedi ymrwymo'n ddwfn i arferion gwaith cynhwysol, felly, yn ystod y broses ymgeisio rydym yn ymrwymo i:

- Dalu am ofal plant os oes angen pan fyddwch mewn cyfweliadau.
- Talu am eich costau teithio am gyfweliadau a gynhelir wyneb yn wyneb.
- Gwneud unrhyw addasiadau rhesymol - er enghraifft, sicrhau ein bod yn trefnu cyfieithydd iaith arwyddo ymlaen llaw pe byddech yn dymuno un.
- Sicrhau bod y ddogfen hon ar ffurf Word, ar gael i'w lawrlwytho'n hawdd.

Os oes unrhyw beth arall yr ydych yn poeni amdano neu'n meddwl y gallem ei ddarparu, rhowch wybod i ni.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

ARTI
CUL
TURE

- Cyfnod y swydd: Penodir Aelodau'r Bwrdd am gyfnod cychwynnol o hyd at dair blynedd y gellir ei adnewyddu i hyd at ddim mwy na chwe blynedd.
- Telerau penodi: Cynigir penodiad ar ôl i'r holl ymgeiswyr gael eu cyfweld a sicrhau bod y gwiriadau cymhwys, gan gynnwys gwiriadau canolwyr, yn foddhaol. Os cynigir penodiad i chi, byddwch yn derbyn crynodeb manwl o'ch prif delerau ac amodau.
- Lleoliad: Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd y bwrdd ym Machynlleth. Yn ystod y pandemig, rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd y Bwrdd o bell ac, er ein bod yn bwriadu dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb pan fydd yn ymarferol, byddwn yn parhau i gynnig opsiynau cyfarfod hyblyg.
- Cyflog: Ni cheir cyflog am gyflawni'r rôl. Gellir talu treuliau rhesymol dan ein polisi treuliau Aelodau'r Bwrdd.
- Dysgu a Datblygu: Rydym wedi ymrwymo i gefnogi Aelodau'r Bwrdd wrth iddynt ddysgu a datblygu trwy hyfforddiant a'n sesiynau dysgu anffurfiol.
- Gwrthdaro Buddiannau: Gofynnir i bob ymgeisydd ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig, a byddir yn trafod y rhain gyda'r ymgeisydd i sefydlu a oes angen cymryd camau i osgoi gwrthdaro neu'r canfyddiad o wrthdaro.



SUT I WNEUD CAIS

ARTI
CUL
TURE

Caiff y broses recriwtio ei chefnogi gan Fyrddau Cynhwysol ar ran Articulture. Os ydych yn dymuno gwneud cais am y swydd hon, a fydddech cystal â chyflwyno'r isod erbyn 23.59 14/11/21

- CV yn nodi hanes eich gyrfa, gyda chyfrifoldebau a chyflawniadau.
- Llythyr eglurhaol (dim mwy na dwy ochr) yn amlygu eich addasrwydd ar gyfer y rôl a sut ydych yn cwrdd â manyleb y person. Sylwch fod y llythyr eglurhaol yn rhan bwysig o'ch cais.
- Manylion dau ganolwr proffesiynol ynghyd â datganiad byr o'u perthynas â chi ac ers faint y maent yn eich adnabod. Ni fyddir yn cysylltu â chanolwyr heb eich caniatâd.
- Ffurflen monitro amrywiaeth - caiff eich data ei storio ar wahân i'ch cais ac ni fydd, ar unrhyw adeg, yn cael ei gysylltu â chi nac â'ch cais.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drefnu galwad i drafod y rôl, anfonwch e-bost i Articulture@inclusiveboards.co.uk neu ffoniwch 07738 725350

Anfonwch eich CV a'ch llythyr eglurhaol i Articulture@inclusiveboards.co.uk neu fynd i www.inclusiveboards.co.uk/opportunities i wneud cais ar-lein.

